**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Mawrth 2016**

## CYNRYCHIOLI ATAGC AR FYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc**

## Diben yr Adroddiad

1. Cynnig y Prif Swyddog Tân yn gynrychiolydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

## Cyflwyniad

2. Pan ddaw i rym ar 01 Ebrill 2016, bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu bwrdd statudol o'r enw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

3. Rhaid i'r BGCau weithredu ar y cyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni "nodau llesiant" a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth (os bodlonir rhai amodau) i ddau neu ragor o BGCau uno os ydynt yn dymuno, neu gael eu cyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru.

4. Bydd pedwar aelod statudol i'r BGCau – sef yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i'r pedwar ohonynt fod yn bresennol mewn cyfarfod i gael cworwm.

5. Yn ogystal â'r awdurdodau statudol, mae'r Ddeddf yn rhestru rhai cyrff a phersonau eraill y mae'n rhaid eu gwahodd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r bwrdd. Nid oes rheidrwydd ar y 'cyfranogwyr gwadd' i dderbyn y gwahoddiad, a hyd yn oed os byddant yn gwneud hynny ni fyddant yn dod yn aelodau o'r BGC.

6. Y trydydd categori o gyfranogwr yw 'partner arall' – sef sefydliadau sydd â diddordeb perthnasol yn lles yr ardal ac sy'n cyflawni swyddogaethau 'o natur gyhoeddus'. Mater i bob BGC yw ystyried a phenderfynu pa rai o'r rhain y mae'n dymuno eu gwahodd, a chaiff y partneriaid hyn hwythau ddewis derbyn neu wrthod y gwahoddiad.

## Gwybodaeth

7. Mae'r Ddeddf yn gwneud nifer o ddarpariaethau ynglŷn â BGCau, gan gynnwys pwy ddylai gynrychioli pob sefydliad[1].

8. Dan y Ddeddf, caiff awdurdodau tân ac achub Cymru ddynodi: a) y cadeirydd, neu b) y prif swyddog tân, neu c) y ddau ohonynt, i'w cynrychioli ar y BGCau.

9. Caiff y person dynodedig fynychu'n bersonol, neu caiff ddynodi person arall i fynychu yn eu lle.

10. Fodd bynnag, rhaid i rai swyddogaethau ddod i'r Awdurdod i'w cymeradwyo. Er enghraifft: "Yn achos pob Bwrdd Iechyd Lleol, pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, ni cheir arfer y swyddogaeth o gymeradwyo'r cynllun llesiant lleol ond mewn cyfarfod o'r corff o dan sylw"[2].

## Argymhelliad

11. Bod yr aelodau'n enwebu'r Prif Swyddog Tân i gynrychioli Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae hyn er mwyn i brif swyddog y Gwasanaeth gael sicrhau dull gweithredu cyson.

---
[1] Atodlen 3.
[2] Adran 43 (6).